

Delwedydd a'i Arwyr (1) gan Philip Lloyd

Mae Peter Lord, yn ei gyfrol swmpus *Delweddu'r Genedl*, yn ein hatgoffa mai W.Goscombe John (1860-1952) a ddyluniodd y rhan fwyaf o'r cerfluniau o enwogion ein gwlad rhwng 1895 a'r Rhyfel Byd Cyntaf.¹ Yn eu plith mae Tom Ellis AS² a'r Parchedig Brifathro Lewis Edwards³ yn Y Bala a Dewi Sant yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Heblaw am ei gerfluniau naturiolaid, bu Goscombe John yn gyfrifol am sawl gwaith alegoriaidd, gan gynnwys y gofeb i enwogion Llansannan: Tudur Aled, William Salesbury, William Rees (Gwilym Hiraethog), Henry Rees ac Edward Rees (Iorwerth Glan Aled) ar ffurf merch ifanc hardd.⁴ Yna, ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, mae ei deyrnged i Evan James a James James, awdur a chyfansoddwr *Hen Wlad fy Nhadau*, ar ffurf sy'n cynrychioli Barddoniaeth a Cherdd.⁵ Mae Peter Lord yn gosod y gwaith hwn mewn cyd-destun ehangach, fel dathliad o'r elfennau a ystyrir yn gyffredinol yn rhannau annatod o enaid y genedl.⁶

Ymhlith gweithiau Goscombe John y tu allan i Gymru mae ei gofeb i'r rhai o Port Sunlight a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf (ger Oriol Gelf *Lady Lever*, lle cedwir *Salem*, o waith Curnow Vosper)⁷ a'i *Heroes of the Marine Engine Room* yn Lerpwl (sef teyrnged i beirianwyr y *Titanic*).⁸

Plac o'i waith yn ennyn chwilfrydedd

Nid cerfluniau yn unig a ddyluniwyd gan Goscombe John. 'Ein prif ddelwedydd' oedd yr enw a roddodd J. H. Jones, Golygydd Y *Brython*, arno wrth syllu ar blac o'i waith yng Nghapel Groeswen, ger Caerffili. Dyma enghraifft o gynnyrch amrywiol Goscombe



Y cerflun o Daniel Owen yn ei safle gwreiddiol, ar ben 'pedestal' Dug Westminster, cyn i reiliau gwarchodol gael eu codi o'i gwmpas.

(Drwy gareidgrwydd Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Cyngor Sir Y Fflint)



Y cerflun yn ei safle presennol ynghanol y dref - heb na phedestal na rheiliau gwarchodol.

Fe'i symudwyd yno ym 1979

(ffotograff: Philip Lloyd)

John; mae'n coffáu William Edward, cydweinidog cyntaf y capel ac adeiladydd y bont enwog ym Mhontypridd. Crynhoir gyrfaddeublyg y gwrthrych ar y plac yn ddwyieithog:-

A builder for both worlds.

Adeiladydd i'r ddau fyd.⁹

Y llynedd, dathlwyd penblwydd y bont yn 250 oed a phenblwydd yr Anthem Genedlaethol yn 150 oed.

Trown yn awr at un o arwyr Goscombe John. Bu farw Daniel Owen ar Hydref 22ain 1895. Yn fuan iawn ail-ffurfiwyd pwyllgor a oedd i'w anrhydeddu yn ei oes yn bwyllgor i'w goffáu. Dan gadeiryddiaeth J.Herbert Lewis, yr AS lleol, penderfynwyd comisiynu cerflun ohono. Agorwyd cronfa apêl genedlaethol, a chasglwyd dros £400 erbyn diwedd 1898 (swm digonol yr adeg honno, mae'n amlwg).¹⁰

Ennill y comisiwn i lunio cerflun

Gwyddai Goscombe John yn dda am waith Daniel Owen (mae'n bosib ei fod wedi darllen cyfieithiad o ran o *Enoc Huws* yn y cylchgrawn *Cymru*). Cymaint oedd ei edmygydd o'r nofelydd fel y mynegodd ei barodrwydd i lunio cerflun ohono gan ystyried unrhyw dâl a gâi 'as nought'.¹¹ Beth bynnag, cafodd y comisiwn, a dechreuodd ar y gwaith cyn cau'r gronfa apêl.

Adroddodd y *North Wales Pioneer* ym Medi 1898: 'Mr Goscombe John, A.R.A.has completed his clay model of the memorial. The statue is to be a bronze one, and it is expected it will be erected either on the Bailey-hill Recreation Ground or at the "Cross" at the bottom of the town'.¹² Yn y diwedd, fodd bynnag, nid Bryn y Beili na'r Cross a ddewiswyd, ond darn o dir agored o'r enw Hallfields, ger hen Neuadd Cyngor Sir Y Fflint.

1901: Y Dadorchuddiad

Dadorchuddiwyd y cerflun ar ddydd Iau, Hydref 17eg 1901 gan yr Arglwydd Kenyon, dan lywyddiaeth J.Herbert Lewis AS. Adroddwyd yr hanes gan y Parchedig John Owen (Gweinidog Capel Bethesda, Yr Wyddgrug, hen gapel Daniel Owen) yn y misolyn *Cymru*.¹³

Talu teyrnged i'r diweddar Ddug Westminster

Mae'n canmol y Pwyllgor am eu dewis o ddadorchuddiwr: 'Y mae Arglwydd Kenyon yn Gymro o waed, ac un o feibion sir Fflint, ac un sydd yn cymeryd rhan amlwg yn ei bywyd cyhoeddus, yn boblogaidd gyda phob dosbarth. Edrychir arno fel un o'r rhai mwyaf rhyddfrydig ei ysbryd a mwyaf ffafriol i addysg ymysg boneddwyr Gogledd Cymru'. Mae'n talu teyrnged yn ogystal i fonheddw arall, sef y diweddar Ddug Westminster, am ei haelioni i'r achos: 'Nid yn unig cyfrannodd un o'r symiau mwyaf, ond rhoddodd y meini tuag at godi y pedestal i'r cerflun sefyll arno'.

Dilynwyd y dadorchuddio gan gyfarfod yn Neuadd y Dref. Y prif siaradwr oedd y Parchedig Brifathro Ellis Edwards o Goleg Y Bala, cyfaill bore oes i Daniel Owen, cyd-efrydydd iddo yn y coleg hwnnw a mab i'r diweddar Barchedig Roger Edwards (Gweinidog Capel Bethesda, Yr Wyddgrug, a phrif ysgogydd y Nofelydd ar ddechrau ei yrfa ysgrifennu). Pwnc anerchiad y Prifathro oedd 'Beth wnaeth Daniel Owen yr hyn ydoedd?'.

Roedd John Owen wedi disgwyl clywed rhyw gymaint o Gymraeg gan 'yr athraw o'r Bala'. Ond, gan fod yno 'nifer da o'r rhai na ddeallent air o Gymraeg', barnodd 'fod mwy o wasanaeth yn cael ei gyflawni i fywyd a chrefydd Gymreig yn y dull hwn'. 'Darllen ei sylwadau a ddarfu Mr. Edwards,' meddai gyda siom, ac o ganlyniad: 'yr oedd y traethiad yn colli mewn poblogrwydd; ond er hynny yn ennill mewn manylder a chywirdeb'.

Ffotograff o Daniel Owen tua adeg ysgrifennu *Rhys Lewis* oedd sail gwaith Goscombe John, yn ôl John Owen. Eto i gyd: 'nid heb raddau o bryder yr oeddem yn edrych ymlaen at ei ddyfodiad'. Er yn cydnabod hawl cerflunydd i 'fesur o ryddid', mae'n cydnabod mai 'unig syniad llawer un yw fod gwerth cerflun yn dibynnu ar ei fod yn llun cywir o'r gwrthrych'. Ymhellach: 'Disgwylir [i gerflunydd] osod allan y gwrthrych yn un o'i agweddau nodweddiadol'.

Daniel Owen yn gwisgo ei het ar ochr ei ben

Pa un o'i agweddau nodweddiadol? 'Oddi wrth yr hyn a glywid', meddai John Owen, 'gallesid tybied mai ei ddiddosben ydoedd y peth mwyaf nodweddiadol ynglyn â Daniel Owen. Bu cryn feirniadaeth ar yr het sydd yn y cerflun. Byddai Daniel Owen yn arfer gwisgo het a chantel lled fawr, ar ochr ei ben, nes rhoddi golwg chwareus, *waggish* iddo. Hysbyswyd y cerflunydd o'r ffaith hon, ond